| | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Tachwedd 2013** |
| **Swyddog Arweiniol:** | **Pennaeth Cyllid ac Asedau** |
| **Awdur Adroddiad:** | **Prif Gyfrifydd** |
| **Teitl:** | **Cyllideb 2014/15- Diweddariad** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad yn darparu diweddariad ar y safle diweddaraf yn y broses o bennu cyllideb y cyngor ar gyfer 2014/15 ac i ystyried y casgliad nesaf o arbedion y bwriedir eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo ar 3 Rhagfyr 2013. Mae'r cynigion arbed yn atodedig yn Atodiad 1.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Mae gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol swyddogaeth archwilio parthed proses y gyllideb.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod y Pwyllgor yn nodi'r safle diweddaraf a'r camau nesaf a gynigir ac yn ystyried rhan nesa'r cynigion arbed i'w cyflwyno i'r Cyngor Sir a'u cymeradwyo'n ffurfiol ym mis Rhagfyr.

## 4. Manylion am yr Adroddiad

Cyhoeddwyd drafft Setliad Llywodraeth Leol Cymru 2014/15 ar 16 Hydref 2013. Y ffigyrau pennawd yw:

- Lleihad ariannol ar gyfartaledd ar draws Cymru o -3.5%
- Gan Sir Ddinbych mae'r setliad gwaethaf yng Nghymru sef -4.6%
- Defnyddiwyd mecanwaith lleddfu i leihau'r effaith yn 2014/15 ond caiff hyn effaith yn 2015/16

Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae ansicrwydd o hyd parthed manylion o fewn y Setliad – yn benodol ynglŷn â chyllid Cynllun Gostyngiad Treth y Cyngor a thrin cyllid ychwanegol Grant Amddifadedd Disgyblion mewn perthynas â'r angen i warchod cyllidebau ysgol. Gobeithir y daw manylion yn fwy eglur ar ôl cyfarfod o Gymdeithas Trysoryddion Cymru ar 25 Hydref. Yn ychwanegol at yr uchod, disgwylir manylion adolygiad actiwaraidd ar Gynllun Pensiwn Clwyd. Disgwylir y bydd yr adolygiad yn cynyddu costau'r cyflogwr. Mae'r Setliad drafft a phwysau eraill yn golygu bod nod arbedion o tua £8.5 miliwn wedi'i osod, er gall hyn newid wrth i fanylion ddod yn eglurach. Cyflwynir diweddariad mwy cyfredol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar ddiwrnod y cyfarfod.

Mae proses y gyllideb hyd yma wedi cyflawni arbedion o £1.7 miliwn ar gyfer 2014/15 a gymeradwywyd gan y Cyngor Sir ym mis Medi. Ar 21 Hydref, cynhaliwyd gweithdy aelodau a gyflwynodd gynigion ychwanegol gwerth £4.5miliwn. Cyflwynwyd pob cynnig i aelodau etholedig gan aelodau cabinet arweiniol, gan ddarparu manylion yr arbediad, yr ardrawiad ac asesiad risg. Y bwriad yw cyflwyno'r casgliad hwn o arbedion i'r Cyngor Sir eu cymeradwyo ym mis Rhagfyr . Golyga hyn wedyn y gellir ystyried arbedion pellach fydd yn angenrheidiol i fantoli cyllideb 2014/15 ar wahân yn y gweithdy aelodau nesaf a drefnwyd ar gyfer 9 Rhagfyr, a'u cyflwyno i'r Cyngor Sir eu cymeradwyo yn Ionawr/Chwefror 2014.

Mae'n bwysig bod gan aelodau etholedig gyfle i godi cwestiynau neu bryderon am unrhyw arbedion a gynigir i'w cymeradwyo yn yr atodiad amgaeedig. Mae'r Aelod Arweiniol a'r Pennaeth Cyllid ac Asedau yn fodlon trafod unrhyw gynnig yn fanylach cyn cyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor Sir i'w gymeradwyo.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Y gyllideb sy'n cynnal cyflawni holl flaenoriaethau a gwasanaethau'r cyngor.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Mae'r atodiad yn dynodi arbedion o £4.5m ar gyfer 2014/15. Cytunwyd yn flaenorol ar arbedion o £1.7m. Gallai nod arbedion ar gyfer 2014/15 fod yn £8.5m.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Cynigiwyd y cynigion arbed a gynhwyswyd fel Atodiad 1 gan Benaethiaid Gwasanaethau. Cynhaliwyd cyfres o gyfarfodydd gyda gwasanaethau a chyllid, yn cynnwys cyfarfodydd gyda'r aelodau arweiniol perthnasol yn bresennol. Trafodwyd y cynigion arbed yn fanwl mewn gweithdy aelodau ym mis Hydref. Dosbarthwyd y cynigion i bob aelod etholedig gyda chynnig i drafod unrhyw gynigion yn fanwl cyn eu cyflwyno i'r Cyngor Sir.

## 8. Datganiad Prif Swyddog Cyllid

Mae'r cyngor yn wynebu heriau ariannol arwyddocaol dros y blynyddoedd nesaf. Bydd cytundeb ffurfiol ar gam nesaf y cynigion arbed yn caniatáu i ymdrech wleidyddol a chorfforaethol ganolbwyntio ar y dasg anodd o adnabod a chytuno ar y mesurau angenrheidiol eraill i osod cyllideb 2014/15.

## 9. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Rhaid ystyried effaith gwasanaeth ac ariannol pob cynnig fel rhan o broses gosod y gyllideb.